Telynor Camac

Haf 2006

Telynau Vining Cyf
8-10 Arcêd Heol Fawr, Caerdydd CF10 1BB
Ffôn: (029) 2022 1199
Ffacs: (029) 2022 6935
E-bost: telynauviningharps@boltblue.com

Rhifyn Arbennig Yr Ŵyl

Daeth pobl o bedwar ban y byd ynghyd yn Galeri – canolfan gelfyddydau newydd sbon Caernarfon – ym mis Ebrill i fwynhau Gŵyl Delynau Rhyngwladol gyntaf Cymru. Daeth cyfranogwyr nid yn unig o Ewrop ond o bob cyfandir, gydag ymwelwyr o Rwsia, Twrci, Israel, Patagonia, Awstralia, Gwlad Thai, yr Unol Daleithau a gwledydd eraill. Helpodd y croeso cynnes, cefndir trawiadol y dre Treftadaeth Fyd-eang yma, ac wythnos o dywydd sych, heulog – heb sôn am raglen o'r radd flaenaf a gweinyddiaeth wych – i wneud yr Ŵyl yn llwyddiant ysgubol. Bydd y rhai a'i mynychodd yn cofio'r digwyddiad am flynyddoedd i ddod.

Cyfarwyddwyd yr Ŵyl gan ***Elinor Bennett*** ac fe'i noddwyd gan ***Camac Harps*** ar y cyd â ***Telynau Vining***. Roedd gwobrau'r cystadlaethau'n cynnwys Telyn Bedal Gyngerdd Fawreddog Camac (gwerth £15,000) a Thelyn Lifer Camac (gwerth £3,000), yn ogystal â gwobrau ariannol a gyfranwyd gan Camac Harps, Telynau Vining, Canolfan Gerdd William Mathias, a chwmnïau cenedlaethol a lleol.

Canlyniadau'r cystadlaethau

Llongyfarchiadau lu i'r holl delynorion a gymerodd ran yn y cystadlaethau ac yn enwedig i'r enillwyr dawnus ym mhob categori:

Cystadleuaeth Dan 13

1. Ben Creighton Griffiths	Cymru	£300
2. Artemy Ismaylov	Rwsia	£200
3. Ksenya Karrask	Rwsia	£100

Ben Creighton Griffiths, naw mlwydd oed, enillydd y Gystadleuaeth Dan 13

Cystadleuaeth Dan 16

1. Glain Dafydd	Cymru	£800
2. Tomos Xerri	Cymru	£400
3. Zahara Lever	Lloegr	£200

Cystadleuaeth Dan 21

1. Glain Dafydd	Cymru	£1000
2. Mali Llywelyn	Cymru	£600
3. Elen Hydref	Cymru	£300

Glain Dafydd, pedair ar ddeg oed, enillydd y Cystadleuaethau Dan 16 a Dan 21

Cystadleuaeth y Delyn Draddodiadol a Gwerin

1. Mairi Macleod	Yr Alban	Telyn Lifer Camac*
2. Mael Lhopiteau	Llydaw	£500
3. Branka Crowder	Serbia Montenegro	£250

Mairi Macleod, enillydd Cystadleuaeth y Delyn Draddodiadol a Gwerin

*Cafodd Mairi Macleod ddewis unrhyw delyn lifer Camac a dewisodd y delyn Stivell gyda thannau coludd ysgafn, a gyd-ddyluniwyd gan Jakez François a'r telynor enwog o Lydaw, Alan Stivell.

Cystadleuaeth y Pencerdd

1. Constance Luzzati	Ffrainc	Telyn gyngerdd Camac*
2. Eleanor Turner	Lloegr	£1000
3. Eva Debonne	Ffrainc	£750

Jakez François ac Elen Vining gydag enillwyr gwobr gyntaf ac ail wobr Cystadleuaeth y Pencerdd: Constance Luzzati (ar y chwith) ac Eleanor Turner (ar y dde)

*Bydd Constance Luzzati yn dewis ei thelyn gyngerdd Camac yn stafell arddangos Camac Harps ym Mharis.

Arddangosfa delynau fwyaf Camac

Yr ŵyl oedd lleoliad yr arddangosfa fwyaf a gynhaliwyd erioed o delynau Camac. Roedd bron 100 o delynau i'w gweld – o delynau lifer bach i delynau pedal cyngerdd mawreddog – drwy gydol yr ŵyl, at ddefnydd cystadleuwyr, ymwelwyr ac unrhyw un a oedd am chwarae, dechreuwyr yn ogystal â thelynorion profiadol.

Daniel Piré, Prif Dechnegydd Camac, yn cyweirio un o'r llu o delynau a oedd i'w gweld yn yr Ŵyl

Ystafell y telynau: rhai o'r llu o delynau Camac a oedd yn cael eu harddangos

Rhaglen cyngherddau'r hwyr

Roedd gan fynychwyr yr ŵyl ddewis eang o gyngherddau gyda'r hwyr, a gallent hefyd wrando ar yr holl gystadlaethau a mynychu gweithdai, dosbarthiadau meistr a datganiadau awr-ginio.

Perfformiwyd y cyngerdd agoriadol gan y delynores glasurol o fri rhyngwladol, ***Isabelle Moretti***, Athro'r Delyn yn y Conservatoire Nationale Supérieur de Musique ym Mharis. Rhoddodd Isabelle berfformiad cyfareddol, ac roedd y gynulleidfa werthfawrogol ar ei thraed yn cymeradwyo ar y diwedd.

Pawb ar eu traed yn cymeradwyo Isabelle Moretti yn y cyngerdd agoriadol

Roedd cyngerdd nos Fawrth o Gerddoriaeth Telyn y Byd yn cynnwys llu o ddoniau rhyngwladol: ***Gwenan Gibbard*** (llais a thelyn) gyda ***Maartin Allcock*** ar y gitâr; ***Paul Dooley*** yn canu telyn Wyddelig â thannau weiren; ***Catriona McKay***, enillydd Cystadleuaeth Telyn Geltaidd Ryngwladol Jakez François 2004; ***Zi Lan Liao***, un o ddehonglwyr cerddoriaeth Tsineaidd a'r delyn Tsineaidd blaenllaw'r byd; ***Andrew Lawrence King*** yn canu telyn Sbaenaidd â thannau croes; a ***Robin Huw Bowen***, yn canu'r delyn deires Gymreig.

Hanner ffordd drwy'r ŵyl, croesawyd ymddangosiad ***Catrin Finch*** ar y llwyfan cyngerdd, yn perfformio repertoire

amrywiol o ddarnau clasurol, yn cynnwys datganiad cwbl eithriadol o *Danses Sacrée et Profane* Debussy gyda ***Phedwarawd Llinynnol Pavao*** a'r perfformiad cyntaf o gyfansoddiad newydd gan y cyfansoddwr o Gymru, ***Geraint Lewis***. Ymunodd Cyfarwyddydd yr ŵyl (a mam-yng-nghyfraith Catrin), ***Elinor Bennett***, â Catrin ar y llwyfan am ran o'r cyngerdd, gyda'r ddwy yn rhoi perfformiad bywiog o *Ffantasi ar Themâu o Carmen*, Bizet, trefniant John Thomas.

Oherwydd cyfarfyddiad rhy glos gyda phlanhigyn ar y llwyfan, bron na chawsom fwynhau ymddangosiad prin yn y DU gan y delynores jazz Americanaidd ***Deborah Henson Conant***! A byddai hynny wedi bod yn drueni, oherwydd rhoddodd berfformiad ysgubol, yn gwisgo sbectol tywyll. Gwnaeth yr achlysur yn un i'w gofio i Ben Creighton Griffiths drwy wahodd enillydd naw-mlwydd-oed y Gystadleuaeth Dan 13 i rannu'r llwyfan am ddeuawd ar un o weithiau Deborah ei hun, *New Blues*. Bythgofiadwy!

Deborah Henson Conant ar y llwyfan

Cafodd holl enillwyr y cystadlaethau gyfle i berfformio mewn cyngerdd ar y Sadwrn neu'r Sul, gan gynnwys Glain Dafydd bedair-ar-ddeg oed o ogledd Cymru, a enillodd y Cystadlaethau Dan 16 a Dan 21 ill dwy!

Cyflwyniadau

Ar ddiwedd yr ŵyl cyflwynwyd gwobrau arbennig i bedwar o delynorion o fri – ***Ann Griffiths***, ***Skaila Kanga***, ***David Watkins*** ac ***Edward Witsenburg*** – er cof am sylfaenydd Camac Harps, y diweddar Joel Garnier.

Elen Vining yn llongyfarch Ann Griffiths, un o'r pedwar telynor o fri a dderbyniodd wobr arbennig yn yr Ŵyl

Cyfarwyddydd yr Ŵyl: Elinor Bennett OBE

Gweledigaeth ***Elinor Bennett*** oedd yr ŵyl, a chafodd ei chyfraniad hithau i fyd y delyn ei gydnabod eleni gyda dyfarnu OBE iddi. Mae Elinor yn ddylanwadol iawn fel perfformwraig, athrawes a llysgennad rhyngwladol dros gerddoriaeth Cymru. Yn gyd-sefydlydd Coleg Telyn Cymru a Telynau Bangor, hi yw cyfarwyddydd artistig Canolfan Gerddoriaeth William Mathias yng Nghaernarfon bellach. Bu Elinor yn cyfarwyddo Astudiaethau'r Delyn ym Mhrifysgol Cymru, Bangor am ddeng mlynedd ar hugain, ac roedd yn Athro Telyn Gwadd yn yr Academi Gerdd Frenhinol. Mae wedi gwneud tri ar ddeg o recordiau fel unawdydd o gerddoriaeth sy'n amrywio o'r traddodiadol i'r clasurol, y poblogaidd a'r arbrofol. Manteisiwyd i'r eithaf ar brofiad eang Elinor a'i sgiliau gweinyddol gwych, nid yn unig yn ystod wythnos yr ŵyl ond yn y flwyddyn flaenorol o gynllunio a threfnu.

Elinor Bennett, Cyfarwyddydd Gŵyl Delynau Rhyngwladol Cymru

Diolchiadau

Diolch i bawb a helpodd i wneud Gŵyl Delynau Ryngwladol gyntaf Cymru yn llwyddiant mor ysgubol, yn enwedig:

- Elinor Bennett, Cyfarwyddydd yr Ŵyl;
- Meinir Llwyd Jones, swyddfa'r Ŵyl a'r holl staff yn Galeri;
- Jakez François a Camac Harps am eu nawdd hael;
- 'Tîm Camac': Eric Piron, Daniel Piré, Yann Chevalier, Alexis Dartois, Florence Marque a Rhian Evans;
- holl feirniaid y Cystadlaethau: Robin Huw Bowen; Paul

Dooley; Ann Griffiths; Meinir Heulyn; Elinor Hudson; Geraint Lewis; Catriona McKay; John Metcalf; Isabelle Moretti; David Watkins; ac Edward Witsenburg;
- a phawb a helpodd, ym mha ffordd bynnag.

A gynhelir Gŵyl arall?

Gobeithio! Felly, gwyliwch y gofod yma. . .

Unig ddosbarthydd y DU

Rydym yn falch i gyhoeddi mai ***Telynau Vining*** fydd unig ddosbarthydd telynau Camac yn y DU o hyn ymlaen. Wrth gyhoeddi'r cytundeb newydd, meddai Jakez François, Rheolwr Gyfarwyddwr Camac Harps: *'Rydym yn fodlon iawn ar y modd effeithiol mae Telynau Vining wedi cynrychioli Camac yn y DU yn y saith mlynedd diwethaf, ac mae'n bleser gennym gyhoeddi'r trefniant dosbarthu arbennig yma. Mae'n adlewyrchu ymrwymiad a buddsoddiad Elen Vining a'i thad Paul o ran sefydlu Telynau Vining a datblygu busnes Camac yn y DU.'*

Symposiwm Telynau Ewrop

Y flwyddyn nesaf, cynhelir **Seithfed Symposiwm Telynau Ewrop** yng Nghymru: y tro yma yng Nghaerdydd, o'r 22 i'r 27 Gorffennaf 2007. Cynhwysir manylion pellach am raglen y Symposiwm yn ein llythyr newyddion nesaf.

Telyn newydd

Mae'n bleser mawr gennym, yn sgîl trafodaethau gyda Jakez François, fod Camac, yn awr wedi dylunio telyn lifer newydd sbon yn arbennig ar gyfer marchnad y DU. Mae'r delyn, sydd heb enw eto, yn delyn werin â thannau coludd, a bydd yn berffaith ar gyfer dechreuwyr neu delynor mwy profiadol sy'n edrych am delyn werin tannau coludd gludadwy.
Gobeithio y bydd yn ein siop erbyn y Nadolig.

Yr Eisteddfod

Unwaith eto, byddwn yn arddangos yn yr Eisteddfod Genedlaethol, o'r 5-12 Awst yn Abertawe. Da chi, dewch i ymweld â ni yn y Neuadd Arddangos. Mae'r delyn drydan (Electroharp) yn mynd yn fwyfwy poblogaidd, ac rydym wrth ein bodd y bydd ***Catrin Finch*** yn chwarae ein telynau trydan pedal a gwerin yn ei chyngerdd nos Iau 10 Awst ym Mhafiliwn yr Eisteddfod. ***Cyngerdd na ddylid ei fethu***!

Mai Fukui

Mae Telynau Vining yn noddi cyngerdd arall yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru. Cynhelir y cyngerdd nos Iau 19 Hydref am 7pm gyda Mai Fukui fel rhan o'i Gwobr Gyntaf yng Nghystadleuaeth Cité des Arts de Paris. Da chi, cysylltwch â ni am docynnau a gwybodaeth bellach.

Gwefan

Yn dod yn fuan... ein dwy wefan newydd: **www.camacharps.co.uk** dylai fod ar-lein ym mis Medi ar gyfer eich holl ofynion telyn a **www.rowlandsonline.co.uk** lle gellwch brynu cerddoriaeth ar gyfer pob offeryn ar-lein.

Telynau Vining Cyf
8-10 Arcêd Heol Fawr, Caerdydd CF10 1BB
Ffôn: (029) 2022 1199
Ffacs: (029) 2022 6935
E-bost: telynauviningharps@boltblue.com